

2015 Rhif 1909 (Cy. 280)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 42 (Earlswood) i
Gyffordd 43 (Llandarcy), Castell-
nedd Port Talbot) a Chefnffordd yr
A465 (Llandarcy, Castell-nedd Port
Talbot i Hirwaun, Rhondda Cynon
Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2015

Gwnaed 2 Tachwedd 2015

Yn dod i rym 9 Tachwedd 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (“y draffordd”) a Chefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r draffordd a’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i’r cyhoedd o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Tachwedd 2015 a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42 (Earlswood) i Gyffordd 43 (Llandarcy), Castell-nedd Port Talbot) a Chefnffordd yr A465 (Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot i Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith o gludo llwyth anwahanadwy annormal sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y cludo” (“*transportation period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 9 Tachwedd 2015 ac sy’n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr “y darn o’r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw’r darn o gerbyttfordd tua’r gorllewin y draffordd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 43 (Llandarcy);

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â ffordd ymadael tua’r gorllewin yr M4 wrth Gyfnewidfa Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot hyd at ei chyffordd â’r A4059/A4061 yn Hirwaun, gan gynnwys cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r draffordd a’r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Tachwedd 2015

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.